# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**18.30 Cyflwyniad gan Naomi Jones ynglyn â dyfodol Plas Tan y Bwlch**

Ar ddechrau cyfarfod Mis Gorffennaf, daeth Naomi Jones, Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri atom i drafod y datblygiadau diweddaraf gyda Phlas Tan y Bwlch, Maentwrog. Trafodwyd y cynllun i symud pencadlys Parc Cenedlaethol Eryri o'r safle presenol ym Mhenrhyndeudraeth i Blas Tan y Bwlch yn Maentwrog. Cafwyd trafodaeth adeiladol am y cynllun gyda Naomi yn ateb sawl ymholiad gan y cynghorwyr. Mi fydd y cynllun yn cymeryd blynyddoedd i'w wireddu, yn golygu llawer o amser ac arian. Dymunwyd yn dda i Naomi ac i aelodau'r Awdurdod. Bydd yn diweddaru y Cyngor Tref yn rheolaidd am y datblygiadau diweddaraf yn y dyfodol.

## <u>19.00 Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Gorffennaf 8fed 2025</u>

## <u>Cofnodion</u>

1. **Presennol:**
   Gwilym Jones (Cadeirydd), Trefor Jones, Jeremy Davies, Carol Hayes, Dr Melfyn Edwards, Karena Owens, Alwyn Gruffydd, Michael Roberts, Edward Naish, Glenda Murray.
2. **Ymddiheuriadau:**
   Dim
3. **Absennol:**
   Llywelyn Rhys
4. **Adroddiad y Cadeirydd:**
   Pwyslesiwyd y pwysigrwydd o ail-sefydlu Siambr Farchnad ym Mhorthmadog er mwyn i fusnesau lleol gyd-weithio gyda'r Cyngor Tre i sicrhau bod Y Stryd Fawr yn parhau i fod yn fan pwysig i fusnesau a thrigilion lleol.
   Codwyd pryder am ddamwain arall yn y Stryd Fawr ym Mhorthmadog.
   Mynegwyd pryder trigolion lleol am or-yrru yn Morfa Bychan ac amharodrwydd yr heddlu a'r awdurdodau i drin a'r mater.
   Cafwyd ymweliad a Chob Crwn a Llyn Bach gyda staff Cyngor Gwynedd ar Ddydd Mercher 2il o Orffennaf er mwyn iddynt gael cyfle i egluro y cynllun i greu llwybr newydd ar hyd y gwair yn Llyn Bach a'i gysylltu a llwybr pobologaidd Cob Crwn. Bwriedir hefyd ail wynebu a lledu y llwybr presenol ar Cob Crwn.
   Daeth cynrhychiolaeth dda o'r Cyngor Tref draw a chafwyd trafodaeth adeiladol am y cynllun. Roedd y cynghorwyr yn gefnogol o'r cynllun ar y cyfan ond codwyd sawl pryderon – yn bennaf y ffaith bydd llwybr Cob Crwn o bosib ar gau am o leiaf tri mis yn ystod y gwaith a'r pryder bydd wal yn cael ei dymchwel ger y Llifddorau Bach (Dora Fach) a allai arwain at lifogydd ar lanw uchel. Mae Cyngor Gwynedd wedi nodi y pryderon ac wedi ymateb iddynt.

5. **Adroddiad y Clerc:**
   1. Cae Pawb – Mae dau denant wedi gadael eu plot yn ystod y mis diwethaf. Y Clerc wedi sicrhau bod y ddau berson a oedd ar dop y rhestr aros wedi cael cynnig y plotiau gwag ac wedi eu derbyn. Mae'r ddau denant newydd eisoes wedi bod yn gweithio yn galed ar eu

plot. Biliau rhentu y ddau denant wedi eu talu a chytundebau wedi eu harwyddo.
Mae tri pherson newydd wedi gofyn am blot a mae eu henwau wedi eu hychwanegu at y rhestr aros sydd nawr gyda 9 enw arno.
Mae'r tenantiaid yn brysur yn paratoi ar gyfer Y Diwrnod Agored rhwng 10.00 a 2.00 ar Orffennaf 26. Llynedd casglwyd £500 er achosion da a ymwelodd dros gant o bobl a'r rhandiroedd.

2. Cronfa Gwynedd Ni. Dyddiad cau – Gorffennaf 31, 2025. I'w trafod dan Gohebiaeth. (Mae'r Clerc wedi bod yn gwneud ymchwil i brynu dau fainc i'r Stryd Fawr a raciau beiciau i Faes Parcio Llyn Bach gyda'r arian grant yma. Beinciau GLASDON o ddeunydd plastig wedi ei ail-gylchu fel sydd ar Cob Crwn oddeutu £500-700 yr un. Rac Beiciau ar gyfer Llwybr Beiciau Llyn Bach – Jeremy Davies yn awgrymu Sheffield Bike Stand tebyg i'r un sydd o flaen Y Ganolfan. Tua £280 am stand tri beic).
3. Bryn Coffa. Y Clerc wedi cyfarfod Barry Edwards ar y safle i weld faint o waith sydd angen ei wneud cyn Dydd Sul Y Cofio. Wedi cael manylion cyswllt tri torrwyr coed er mwyn gofyn am dyfynbris. Y gwaith i'w wneud yn ystod pythefnos cyntaf MIS HYDREF.
4. Cae chwarae Bodawen. I'w drafod dan gohebiaeth. Y Clerc yn cyfarfod Ruhi Pugh – fisher german - am 1.00 16eg o Orffennaf ar y safle.
Angen penderfynu os oes angen trefnu archwiliad o Gae Chwarae Bodawen yn ystod Gorffennaf?
5. Safle we y Cyngor Tref wedi ei diweddaru.
6. Carafanets o gwmpas Porthmadog. Mae sawl cwyn am carafanets yn parcio dros nos ym Mhorthmadog yn ddiweddar. Un ymateb cadarnhaol. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi arwyddion i bobl beidio a pharcio carafanets ger depo'r Cyngor wrth maes parcio Llyn Bach.
7. Cyfethol Cynghorydd newydd. Wedi trafod gyda'r cyn glerc er mwyn sicrhau bod y drefn iawn wedi ei ddilyn. Cynghorydd newydd wedi arwyddo y dogfennau perthnasol ar Mehefin 30. Huw Elfed Roberts wedi ei hysbysu bod cynghorydd newydd ar ward Ynys Galch.
8. Llechen Ysgol Borth-y-Gest. Cyngor Gwynedd wedi awgrymu Adran Morwrol i helpu ond mai'n debyg mai mater i'r Adran Bwrdeisdref fuasai hyn.

Clwb Chwaraeon Madog. Cyfarfod 16 Gorffennaf am 6 o'r gloch yh yn Clwb Chwaraeon Madog i drefnu dyfodol y clwb.

**5 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Llawn Mehefin 10fed 2025**
Cyng. Carol Hayes yn cynnig un cywirdeb. Y Clerc i addasu y cofnodion drafft.

**6. Datgan diddordeb:**
Y Cyng. Michael Roberts. Parthed Rhif 7 ar y Rhaglen. Ceisiadau Cynllunio c **Rhif Cais: C25/0440/44/LL**.
Ffurflen Datgan Diddordeb wedi ei llewni gan Cyng. Michael Roberts. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**7. CEISIADAU CYNLLUNIO**

a. **Rhif cais: C25/0437/44/DT - Gwynle Lôn Gwydryn, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YB**
Dim gwrthwynebiad.

b. **Rhif Cais: C25/0420/44/TC - St Brides Cottage Lôn Gwydryn, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YA**
Dim gwrthwynebiad.

c. **Rhif Cais: C25/0440/44/LL - Tir ger 2 Bron Afon, Borth Y Gest, Ll49 9TU**
Dim gwrthwynebiad. Gadawodd y Cyng. Michael Roberts y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

## 8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF

- Ystyried derbyn a mabwysiadu Polisi Cydraddoldeb Enghreifftiol Un Llais Cymru neu mabwysiadu a derbyn yr un gerbron y Cyfarfod Blynyddol ar 13.5.25.
  Derbyn y fersiwn a gyflwynwyd yn y Cyfarfod Blynyddol. Y dogfen wedi ei chywiro. Diolch i Linda Edwards. Bydd angen teipio'r fersiwn newydd. Ail-gyflwyno y fersiwn newydd yn y cyfarfod nesaf.
  Michael Roberts yn cynnig. Eilio Glenda Murray.

## 9. MATERION I'W DWYN GERBRON :-

- **Cyng Karena Owens :-** Cynnig bod y Cyngor Tref yn prynu a gosod 2 fainc ar Stryd Fawr Porthmadog - un o flaen Specsavers a'r llall o flaen yr hen Gapel Salem.

  Karena Owens yn cynnig. Carol Hayes yn eilio. Derbynwyd yn unfrydol. Penderfynnu ymgeisio am arian grant o Cronfa Ni Cyngor Gwynedd i ariannu'r cynllun.

## 11. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb

1. Aneurin Mon Parry Cyngor Gwynedd.Diweddariad ar dir Hafodydd Borth-y-Gest.
Y Clerc i gysylltu unwaith eto gyda Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.
2.Steffan Williams Cyngor Gwynedd. Parthed Cais Ariannol i Clwb Ieuenctid.
Y Clerc i gysylltu unwaith eto gyda Steffan Williams.
3. Alun Evans Cyngor Gwynedd. Ymholiad Martin Thomas ynglyn a charafannau yn Fferm Gelert.
Y Clerc i gysylltu unwaith eto gyda Chyngor Gwynedd er mwyn cael eglurhad os oes hawl gan y cwmni i ganiatau i'w gwirfoddolwyr i letya yn y carafannau statig ar y safle.
4. Alun Evans Cyngor Gwynedd. Ymholiad Martin Thomas ynglyn a thentiau ar y gwair ger Llyn Bach.
Y Clerc i drafod y mater gyda Chyngor Gwynedd.
5. Cyngor Gwynedd Parthed gosod carreg o Ysgol Borth-y-Gest ger yr harbwr yn y pentref.
Trefnir bod Cyngor Gwynedd yn rhoi y garreg yn wal Harbwr Borth-y-Gest.
6. Cyngor Gwynedd. Ymholiad am y peiriannau casglu arian yn meysydd parcio Borth-y-Gest a Heol y Parc, Porthmadog.
Cafwyd ymateb gan Cyngor Gwynedd.
7. Cyngor Gwynedd Ymholiad am grantiau meysydd chwarae ar gyfer Parc Porthmadog.
Y Clerc i barhau i wneud ymchwil i fewn i'r grant yma.

## 12. GOHEBIAETH :

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Barry Edwards – Cyngor Gwynedd | Cais i docio coed Bryn Coffa cyn mis Tachwedd<br>Gweler Adroddiad y Clerc. |
| 2 | Pauline Williams – Y Ganolfan | Argymell ffi o £500 i drefnu digwyddiadau Nadolig Y Ganolfan.<br>Derbyn cynnig Pauline Williams. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Glenda Murray yn eilio. |
| 3 | Amy Jones | Arwyddion newydd ym Mhorthmadog.<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 4 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Prosiect Rheoli Llifogydd Porthmadog – diweddariad.<br>Derbyn y wybodaeth.<br>Gwahodd CNC i gyfarfod y Cyngor. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Carol Hayes yn eilio. |
| 5 | Alfie Waiting – Gwynedd | Gwelliannau Mannau Bysiau Porthmadog.<br>Derbyn y wybodaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Lottie Brooks - FisherGerman | Cae Chwarae Bodawen.<br>Y Clerc yn cyfarfod gyda cynrhychiolydd o fishergerman ar y safle ar Gorffennaf 16 i drafod y datblygiadau diweddaraf. |
| 7 | Alys Rees Jones C.G. | Cronfa Gwynedd Ni - manylion ac atodiad.<br>Y Clerc i lewni'r ffurflenni cais cyn Gorffennaf 31. |

## 13. MATERION ARIANNOL :

**Derbyniadau :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyngor Gwynedd | Incwm Parcio 10/24 – 31/03/2025 | £5371.73 |
| 2 | CAE PAWB | Rhent 2025 arian parod | £30 |
| 3 | CAE PAWB | Ernes arian parod | £40 |

**Biliau i'w talu :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Mehefin 2025 | £60-67 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Mehefin 2025 | £1,408.58 |
| 3 | H.M.R.C. | Treth Incwm Clerc Mehefin 2025 | £352.14 |
| 4 | Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bysiau | £215.11 |

Cymeradwywyd y taliadau. Cynnig. Alwyn Gruffydd. Eilio - Glenda Murray.
(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol).

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Elfyn Lewis
14/07/25
( Clerc )

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*